Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

27 Mai 2022

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Mai yn gofyn i mi nodi'r camau y gellir eu cymryd mewn perthynas ag ystyried gwaith ymchwil pellach ar y berthynas rhwng dyled a dibyniaeth ar alcohol a/neu gamddefnyddio sylweddau.

Mae swyddogion y Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS), o bortffolios Cyfiawnder Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd, yn gweithio ar y cyd i archwilio opsiynau ar gyfer bwrw ymlaen â hyn. Mae'r opsiynau sy'n cael eu hystyried fel a ganlyn:

- Comisiynu cyflenwr yn ffurfiol i ehangu ar yr adolygiad llenyddiaeth blaenorol a gynhaliwyd yn fewnol
- Ystyried a allai hyn fod yn rhan o Gynllun Gwaith Canolfan Dystiolaeth COVID-19

Fel yr awgrymwyd, mae swyddogion wedi bod yn cael trafodaethau â'r Uned Tystiolaeth a Data Cydraddoldeb. Ac er nad yw'r ymchwil hon yn ymwneud yn uniongyrchol â'u maes gwaith, byddwn yn sicrhau eu bod yn cael gwybod am unrhyw gynnydd ac yn gallu cyfrannu at y gwaith.

Dylid nodi, yn ogystal â gwerthuso'r hyn y gall y dystiolaeth ei ddweud wrthym am y cysylltiad rhwng dibyniaeth a dyled, ystyriaeth allweddol arall fydd argaeledd data ar gyfer y maes hwn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn sicrhau bod unrhyw waith ymchwil pellach a wneir yn addas i'r diben, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o wybodaeth imi am yr hyn y mae'r pwyllgor yn gobeithio ei gyflawni drwy gynnal yr ymchwil hon - a gofyn ichi roi arweiniad mwy uniongyrchol imi gan y pwyllgor.

Yn gywir,

Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice